

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Cynorthwyydd Ecolegol

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Cynorthwyydd Ecolegol



Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.  Rydym yn chwilio am Cynorthwyydd Ecolegol ac Amgylcheddol i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS1 (SCP 29-31) £35,411 - £37,261

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Parc Menai / Conwy / Helygain / Llandrindod / Aberaeron / Drenewydd / Dolgellau

**Dyddiad cau:** 23/11/2023

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Bydd y Cynorthwyydd Ecoleg yn gyfrifol am gynorthwyo Ecolegydd ACGCC, a'r Tîm Amgylcheddol i weithredu gofynion polisi Llywodraeth Cymru (LlC) a deddfwriaeth amgylcheddol megis Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1980 ac Adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru. Darparu cyngor a chefnogaeth ecolegol broffesiynol i ACGCC a'n partneriaid yn ymwneud â'r asesiad effaith a mesurau lliniaru ein gweithredoedd ar ecoleg a bioamrywiaeth, gan sicrhau fod ACGCC yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd bioamrywiaeth.

Gweithio o fewn y Tîm Amgylchedd i reoli rhestr eiddo stadau meddal gan gynnwys adnabod lleoliad a chyflwr yr asedau ecolegol. Cynnig, dylunio a rheoli rhaglen o brosiectau gwella ecolegol wedi'u datblygu o weithgareddau cynnal a chadw arferol ac ymatebol sy'n gysylltiedig â rheolaeth stadau meddal ac amgylcheddol. Cynorthwyo'r Timau Ecoleg ac Amgylchedd a staff arall ACGCC i gael trwyddedau CNC lle bo'r angen a chyflawni unrhyw amodau a gofynion megis arolygon, monitro ac adrodd i sicrhau cydymffurfiaeth.  Gweithio gyda'r Ecolegydd i ddatblygu rhaglen o Drwyddedau Gwaith ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig hyd at foddhad CNC.  Gweithio gyda'r Ecolegydd a CNC i ddatblygu system adrodd ar-lein ar gyfer cydymffurfiaeth gyda thrwyddedau, a gweithio gydag Ecolegydd, Cydlynwyr Amgylcheddol, Swyddogion Amgylcheddol a Swyddogion Coedyddiaeth i reoli prosiectau sy'n gysylltiedig â gwelliant ecolegol a gwaith lliniaru



# Cyfrifoldebau

- Darparu cefnogaeth ecolegol uniongyrchol i staff ACGCC yn cynnwys Cynnal a Chadw, Archwilio a Thimau Prosiect yn cynnwys adolygu dogfennau mewnol ac allanol, arolygon ac adrodd, cyngor technolegol a mynychu cyfarfodydd, dirprwyo i'r Ecolegydd neu'r Cydlynydd Amgylcheddol pan fo'r angen, rheoli darparwyr gwasanaeth allanol (ymgynghorwyr / dylunwyr fel Noddwr Prosiect a chontractwyr), gweithredu fel 'Clerc Gwaith Ecolegol' crwydrol ar brosiectau ACGCC i sicrhau fod gwaith yn cael ei wneud i fanyleb ac yn unol â'r gofynion trwydded. Rheoli perthnasau a chysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid amgylcheddol a chynorthwyo a chynghori'r tîm Amgylchedd a Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwelliannau i reolaeth bioamrywiaeth, tirwedd neu amgylcheddol.

- Ymgymryd ag archwiliadau ecolegol arbenigol o'r stadau meddal ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant a'r trwyddedau pwrpasol a ddelir. Lle bo archwiliadau arbenigol ychwanegol yn ofynnol, ond dim arbenigaeth ynglŷn â'r rhywogaeth, grŵp neu gynefin ar gael gan staff ACGCC, llunio briffiau a chaffael arbenigwyr i ymgymryd ag archwiliadau ecolegol neu samplo a chyngor, adnabod, asesu risg a blaenoriaethu asedau ecolegol a diffygion cynefin, cynorthwyo'r Tîm Amgylcheddol i arolygu a rheoli'r stadau meddal gan gynnwys coed pan yn ofynnol, rhaglennu a chynnal arolygon perthnasol (cylchol, ymatebol) i gydymffurfio ag WGTRMM. Hysbysu tîm Amgylchedd, tîm Gweithrediadau a thimau Rheoli Llwybrau ACGCC cyn gynted ag y bo'n ymarferol i alluogi i ddiffygion blaenoriaeth uchel i gael eu cywiro, cysylltu gyda pherchnogion tir neu sefydliadau rhanddeiliaid (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru [CNC] neu awdurdodau lleol) ynglŷn â materion amgylcheddol a leolir gerllaw'r gefnffordd, a chynorthwyo'r Heddlu, cyrff gorfodi a'r tîm Hawliadau Trydydd Parti drwy ymchwilio i honiadau llygredd, difrod neu aflonyddwch i ecosystemau neu rywogaethau a warchodir.

- Cynorthwyo i reoli archwiliadau ecolegol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM) a systemau rheoli asedau Llywodraeth Cymru, trefnu arolygon a rheoli cofnodion ar gyfer rhywogaethau a warchodir, peillwyr a chysylltu gyda chyrff allanol, e.e. www.cofnod.org.uk, cynorthwyo a chysylltu gydag Uned Cyflawni ac Archwilio ACGCC neu eraill ynglŷn ag arolygon ecolegol gofynnol fel rhan o brosiectau gwella cyfalaf e.e. archwilio safle am Lysiau'r Dial. Trefnu arolygon ecolegol arbenigol gan gadwyn gyflenwi ACGCC e.e. arolygwyr ystlumod trwyddedig, trefnu arolygon amgylcheddol arbenigol gan gadwyn gyflenwi ACGCC e.e. monitro / profi ansawdd dŵr neu ddarganfod llygredd i fodloni gofynion *Rheoliadau Amgylchedd y Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith y Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003*.

- Rheoli caffael, comisiynu a gweithrediad swyddogaethau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â stadau meddal sydd wedi'u rhaglennu, sy'n arferol ac sy'n rhagweithiol, er enghraifft - rhaglen flynyddol ar gyfer rheoli asedau ecolegol e.e. goleuadau ystlum, ffensio bywyd gwyllt, mesurau lliniaru bywyd gwyllt arbenigol, cynorthwyo a darparu cefnogaeth rheoli mewn argyfwng i'r gwasanaethau brys ac ACGCC pan fo digwyddiad llygru, rheoli atgyweiriadau diffygion a swyddogaethau cynnal a chadw arferol o fewn cyllidebau sydd ar gael ac o fewn cyfyngiadau arwynebedd ffordd. Darparu cefnogaeth i dimau a chadwyn gyflenwi ACGCC i reoli risgiau o niwed neu aflonyddwch i ecosystemau yn enwedig wrth weithredu'r *Llawlyfr Dogfennau Contract ar gyfer Gwaith Priffyrdd (MCHW) Cyfres 3000 Tirwedd ac Ecoleg,* cefnogi Cydlynwyr Amgylcheddol ac Ecolegwyr i gyflawni amcanion bioamrywiaeth a mentrau Gweinidogol Llywodraeth Cymru (e.e. Coridorau Gwyrdd) i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a chynorthwyo i reoli Cronfa Ddata Risg Amgylcheddol ACGCC.

- Gweithio hefo swyddogion Amgylcheddol i gynnal archwiliadau ac arolygon o'r stadau meddal hefo pwyslais penodol ar yr asedau bioamrywiaeth megis bylchau ystlumod, twneli moch daear, hibernacula. Mae data'r arolwg i gael ei gofnodi mewn systemau rheoli asedau LlC, a chynnal archwiliadau ac arolygon i greu gwybodaeth rhestr eiddo ecolegol gan fanylu ar asedau stadau meddal newydd a phresennol yn unol ag WGTRMM. Mae data'r arolwg i gael ei gofnodi mewn systemau rheoli asedau LlC yn defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Yr ydym yn chwilio am berson sydd â sgiliau rhyngbersonol wedi’u datblygu’n dda a'r gallu i ddylanwadu a chymell eraill, sgiliau trefnu da, arloesol a blaengar, gallu gweithio mewn amgylchedd tîm, a gallu hunan gymell, ymroi, ac arddangos mentergarwch personol. Gallu gweithio’n ddiogel dan bwysau a delio gyda therfynau amser tynn, gallu gweithio gydag ychydig o oruchwyliaeth, blaenoriaethu llwyth gwaith personol, gallu cyfathrebu mewn ffordd gwrtais, dactegol, diplomyddol wrth ddelio gyda materion cynhennus, deall polisïau a chyfyngiadau eraill, a gallu darparu arweiniad, rheoli, goruchwylio ac arwain ar faterion ecolegol o fewn timau a phrosiectau ACGCC.  Ymroi i gywirdeb a chyflawni tasgau i gyflawni'r canlyniad gorau i'r amgylchedd, gallu gweithio mewn ymgynghoriad a phartneriaeth â sefydliadau ac ymgynghorwyr allanol, Gallu dal ati hefo cyflawni cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a'r ymarfer ecolegol gorau pan nad yw pob amser yn ddewis poblogaidd ymysg eraill. Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus, ac yn barod i weithio oriau y tu allan i oriau arferol yn aml, yn ôl y gofyn.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwylio am berson sydd a radd neu MSc mewn Sŵoleg, Botaneg, Ecoleg neu bwnc ecolegol perthnasol. HNC/HND/NVQ (Lefel 4) mewn pwnc yn ymwneud ag ecoleg, ac o leiaf 5 mlynedd o brofiad perthnasol.

## Profiad perthnasol

Profiad o reoli a chynnal arolygon ecolegol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, profiad o wneud cais a chael trwydded ar gyfer Rhywogaethau a Safleoedd Gwarchodedig, a dealltwriaeth dda o Ddeddfwriaeth Amgylcheddol berthnasol Cymru/DU yn enwedig ar gyfer Cadwraeth Natur.  Profiad o adnabod ystod o rywogaethau a chynefinoedd cyffredin y DU, wedi bod yn rhan o ddatblygiad mesurau lliniaru a gwaith gwella rhywogaeth neu gynefin, a deall ecoleg ystod o rywogaethau gwarchodedig cyffredin.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau a gwybodaeth o ddeddfwriaeth cadwraeth natur y DU, deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, safonau a chanllaw Arfer Dda’r Diwydiant, gallu defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GiS), dal data yn y maes, dadansoddi a thrin data, cynhyrchu mapiau ac adroddiadau.  Gallu craffu adroddiadau a dogfennau a gynhyrchir gan eraill i sicrhau fod y cynnwys yn dderbyniol, sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig i gynulleidfa eang.  Yn gallu ysgogi ac addysgu eraill, sgiliau ysgrifennu adroddiadau cryno, rheoli a dehongli data. Sgiliau ymarferol yn adnabod prif grwpiau rhywogaeth a gwybod ble i ddarganfod gwybodaeth bellach, sgiliau datrys problemau a darganfod ffyrdd o ddatrys gwrthdaro a chyflawni canlyniadau o safon, llenyddiaeth TG - defnydd o Word, cronfeydd data a thaenlenni Excel, ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch a thrwydded Yrru ddilys gyfredol.

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a




- 28.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.